# Cenn@d

CHWEFROR 12 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 207

## Argyfwng cyrsiau academaidd ym maes diwinyddiaeth yng Nghymru

Yn dilyn cyhoeddiad gan Brifysgol Caerdydd eu bod yn bwriadu cael gwared ar 400 o swyddi academaidd llawn amser, gan gynnwys dileu pwnc diwinyddiaeth yn gyfan gwbl, mae dyfodol hyfforddiant diwinyddol yng Nghymru yn y fantol.

Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, wedi datblygu a ffynnu, gan ehangu ei ddarpariaeth o ran hyfforddiant i'r weinidogaeth. Trwy gyflwyno mwy o opsiynau drwy gyfrwng y Gymraeg, bu cydweithio hapus iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn rhwng y Bedyddwyr, yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid, gan rannu adnoddau o fewn y coleg. Yn yr un modd mae Athrofa Padarn Sant yn Llandaf gyda'r Eglwys yng Nghymru wedi datblygu i gynnig llawer o gyrsiau ymarferol ar gyfer hyfforddi gweithwyr i'r maes Cristnogol. Tra mae llawer o'r hyfforddiant yn digwydd yn y colegau hyn, roedd yr elfen o ddilyn cwrs gradd academaidd yn dod o dan ymbarél y Brifysgol. Pan oeddwn i'n fyfyriwr diwinyddol ym Mangor 40 mlynedd yn ôl roedd hyfforddiant i lefel gradd BD a thu hwnt yn cael ei gynnig gan dri choleg prifysgol, sef Bangor, Llanbed a Chaerdydd. Gyda chyhoeddiad diweddar Caerdydd, ymddengys na fydd yr un brifysgol yng Nghymru yn medru cynnig cwrs gradd diwinyddol o 2026 ymlaen.

Wrth ymateb i'r newyddion ar raglen *Bwrw Golwg*, dywedodd yr Athro D. Densil Morgan, a fu'n darlithio yn y maes ym Mhrifysgol Bangor ac yna yn Llanbed, 'Mae'n ymddangos na fydd yr un adran ddiwinyddol mewn prifysgol yng Nghymru o gwbl – mae'r peth yn drasiedi. Lle roedd gyda chi Gaerdydd, Llanbed a Bangor yn cynnig holl rychwant diwinyddiaeth, astudiaethau Beiblaidd, astudiaethau athrawiaethol, hanes yr Eglwys, athroniaeth crefydd – mae'r adrannau i bob pwrpas wedi cau.'

Cred Dr Rosa Hunt, sy'n gyn-bennaeth Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, fod y bwriad i gael gwared â diwinyddiaeth fel pwnc yn drychineb. Meddai, 'Mae'r datblygiad hyn yn ofnadwy i bwnc academaidd Astudiaethau Crefyddol yng Nghymru. O ystyried



Rosa Hunt (yn y canol) gyda rhai o fyfyrwyr y coleg yng Nghaerdydd

rôl crefydd wrth lunio Cymru a'n byd amrywiol heddiw, byddai'n "drychineb" colli'r maes astudio pwysig hwn i fyfyrwyr ac academyddion fel ei gilydd.'

Mae Coleg y Bedyddwyr eisoes yn edrych ar opsiynau eraill, a bydd yr addysg yn parhau wrth i fyfyrwyr newydd gael eu derbyn eto yn 2025. O ran graddau ôl-raddedig, mae trefniant eisoes mewn lle â Choleg Rhyngwladol y Bedyddwyr, IBTS, yn Amsterdam.

Mae gan Gymru draddodiad cyfoethog iawn o hyfforddi diwinyddion blaengar ac arloesol, gyda llawer wedi teithio'r byd a chyhoeddi llyfrau academaidd sylweddol. Hyfforddwyd cannoedd o weinidogion a chenhadon dros y blynyddoedd, a hynny drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Gan sylweddoli bod yna lai o ddiddordeb yn y pwnc yn y cyfnod seciwlar rydyn ni'n byw ynddo ar hyn o bryd, hyderwn y byddwn fel cenedl yn parhau i ddiwinydda ac y bydd cyfleoedd i wneud hynny yn yr iaith Gymraeg. Pwyswn ar Brifysgol Caerdydd i ystyried eu penderfyniad yn ofalus, rhag colli'r pwnc yn gyfan gwbl o Gymru.

*Aled Davies*

## Datganiad gan Goleg y Bedyddwyr, Caerdydd

Rydym yn ddiolchgar am lawer o negeseuon o gefnogaeth yn dilyn y newyddion ddoe [28 Ionawr] fod Prifysgol Caerdydd yn cynnig newidiadau eang sy'n cynnwys, 'rhoi'r gorau i byncliau a rhaglenni yn y sector ... Crefydd a Diwinyddiaeth'. Mae'r rhain yn gynigion i'w trafod ar hyn o bryd ac rydym yn deall na fydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu tan fis Medi 2026 ar y cynharaf. Mae hyn yn golygu y gallwn dderbyn myfyrwyr newydd ar y cyrsiau BTh / MTh ym mis Medi 2025.

Os bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu, mae gan Brifysgol Caerdydd rwymedigaeth i barhau gydag addysgu graddau'r myfyrwyr, fel y byddai unrhyw un sydd wedi dechrau ar raglen astudio yn gallu ei chwblhau. Mae CBC hefyd wedi dechrau archwilio opsiynau eraill ar gyfer darparu cymwysterau, ac rydym yn hyderus na fydd profiad myfyrwyr presennol, nag yn y dyfodol, yn dioddef, ac ni fydd ein gallu i ddarparu ffurfiant o ansawdd uchel i fenywod a dynion i ddilyn galwad Duw mewn cenhadaeth a gweinidogaeth yn cael ei heffeithio chwaith. Dyma ein hymrwymiad.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ein partneriaeth hir sefydlog â Phrifysgol Caerdydd, ers 1893. Felly, rydym yn teimlo'n bryderus iawn am ein holl ffrindiau a chyd-weithwyr ar draws y brifysgol, ac yn enwedig y rhai sy'n gweithio yn Hanes a Chrefydd yr Henfyd, yr ydym yn gweithio gyda nhw bob dydd.

Grym anorchfygol gobaith
Tudalen 2

Hybu cysylltiadau ag India
Tudalen 4

O Gefn Gwlad
Tudalen 8

# Grym anorchfygol gobaith

Oeddech chi'n gwybod bod Cymorth Cristnogol yn 80 oed eleni? Ers wyth degawd, rydyn ni wedi bod yn fynegiant o ffydd yng ngrym anorchfygol gobaith i greu byd mwy cyfiawn a heddychlon. Rwy'n dweud 'ni', oherwydd mae Cymorth Cristnogol yn fudiad anhygoel o bobl a phartneriaid – mudiad y mae sawl cymuned yma yng Nghymru wedi bod yn rhan ohono o'r cychwyn cyntaf fwy neu lai.

Mae hi'n cymryd tipyn o ymrwymiad i gynnal gwaith fel hwn dros y degawdau, ac mae'r ffyddlondeb i weledigaeth y mudiad yn rymus ymhlith unigolion, eglwysi a chymunedau heddiw. Efallai na ddylai hyn ddim bod yn syndod. Mae'r gwaith wedi ei sefydlu ar ffydd yng 'ngrym anorchfygol gobaith', a dyma eiriau neu ymadrodd a glywch yn ystod y flwyddyn.

Diolch i gefnogaeth ffyddlon at y gwaith, y llynedd drwy 260 o bartneriaid, cyrhaeddwyd 4.5 miliwn o bobl drwy gannoedd o brosiectau – o grwpiau arbed a chynilo i sefydlu dulliau ffermio cydweithredol, o hyfforddiant i leihau risg trychinebau hinsawdd i waith iechyd. Rydym yn hynod ddiolchgar am ymateb hael capeli Cymru i'r gwaith dyngarol yn Gaza ac ar draws y Dwyrain Canol, lle mae ein partneriaid yn parhau i roi cefnogaeth sy'n achub bywydau pobl gyffredin yng nghanol y gwrthdaro. Nawr, yn dilyn Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol, a dynnodd sylw at sefyllfa druenus ffoaduriaid yn Ne Swdan, rydym wedi lansio Apêl Argyfwng Swdan ddiwedd Ionawr i helpu rhagor o bobl sydd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi oherwydd gwrthdaro ac sy'n wynebu bygythiadau pellach o newyn ac afiechyd.

Mae'r alwad i weithredu dros gyfiawnder cyn gryfed ag erioed. Hoffem estyn gwahoddiad i bawb eleni - yn unigolion, teuluoedd, eglwysi a chymunedau - i nodi pen-blwydd arbennig Cymorth Cristnogol mewn rhyw ffordd. Wrth i ni ddiolch am ymrwymiad diwyro ein heglwysi a'n cymunedau, dyma gyfle i ailymrwymo i'r gwaith heddiw i greu dyfodol gwell i holl bobl Dduw. Bydd nifer o adnoddau arbennig i nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 ar gael cyn bo hir.


Llun: Havard Bjelland/NCA

Mae miliynau o bobl yn Swdan wedi ffoi o'u cartrefi ac yn wynebu newyn

Diolch am fod yn rhan o'r mudiad hwn o bobl, eglwysi a mudiadau lleol sydd yn eiriol dros urddas, cydraddoldeb, cyfiawnder a chariad. Dyma ychydig o bethau i godi calon ac i'w nodi yn y dyddiadur dros y misoedd nesaf.

**Adroddiad 'Our Year of Impact'**
Bydd yr adroddiad bach lliwgar Our Year of Impact yn codi calon ac yn eich annog i weithredu yn erbyn tlodi yn 2025. Sylwch ar stori her tri chopa Iwan Williams y llynedd er cof am ei nain, Irene Williams, a fu'n sbardun i rai o grwpiau gweithredu cyntaf Cymorth Cristnogol yng Nghymru.

**Cyngerdd Gŵyl Ddewi**
Ymunwch â ni nos Sadwrn, 1 Mawrth (7.30–9.30pm), mewn cyngerdd a gynhelir gan Esgob Llandaf yng Nghadeirlan Llandaf yng Nghaerdydd. Mae'r tocynnau am ddim, gyda chasgliad ar y noson. Tocynnau yma.

**Hanner Marathon Caerdydd**
Mae gennym 10 lle os hoffech ymuno â thîm Cymorth Cristnogol Cymru ym mis Hydref 2025. Cofrestrwch i fod yn rhan o'r tîm!

**Cynhadledd Changemakers**
Ymunwch â chefnogwyr o bob cwr o'r Deyrnas Unedig ddydd Sadwrn, 8 Mawrth (10.30am–1pm), i glywed gan staff a phartneriaid Cymorth Cristnogol o Guatemala, gyda chyfle i baratoi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2025. Er mai Llundain yw canolbwynt y cyfan, byddem wrth ein bodd pe baech yn ymuno â ni ar-lein! Cofrestrwch yma.

**Taclo Tlodi adeg y Grawys**
Mae'r cwrs chwe wythnos hwn wedi'i gynllunio gyda phartneriaid anhygoel yn y Deyrnas Unedig er mwyn helpu i gael dealltwriaeth ddyfnach o dlodi a magu hyder i drafod y mater gyda chynrychiolwyr gwleidyddol. Mae'n ddelfrydol ar gyfer y Grawys ac ar gael yn llawn yn Gymraeg. Rhagor o fanylion: cwrs Taclo Tlodi

**E-newyddion Cymorth Cristnogol Cymru**
I dderbyn diweddariadau gan Gymorth Cristnogol Cymru, fe fedrwch gofrestru i dderbyn ein neges e-bost newydd, a fydd yn cael ei hanfon atoch bob mis neu ddau. Ewch i dudalen hafan y wefan a sgrolio i lawr i'r gwaelod, ac yn y gornel dde, fe welwch 'Receive updates about our work': www.christianaid.org.uk

*Mari McNeill*
*Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru*

# O'r byd a'r betws

## 'Un ydym ni'

Mewn cyfarfod diweddar o weithgor Cytûn sy'n gwrando ar dystiolaeth yr eglwysi am eu hymwneud â gweithio o blaid cyfiawnder hiliol, gwerthfawrogwyd nad yw hyn yn amlwg iawn ar draws gorllewin, canolbarth a gogledd Cymru. Mae'n siŵr bod trwch darllenwyr *Cenn@d* ymhlith y dosbarth hwn. Ond efallai nad yw nifer o'r darllenwyr wedi cael cyfle i ymwneud ryw lawer â phobl o gefndiroedd ethnig dramor, ac nad yw defnyddiau Sul Cyfiawnder Hiliol yn eu taro mewn ffordd bersonol.

Eitem ar y newyddion yw clywed am bêl-droedwraig yn cwyno am heddwas yn ei sarhau am ei bod yn groenddu, neu fod unigolion yn teimlo'u bod wedi derbyn sarhad gan swyddogion gwasanaethau cyhoeddus. Bydd profiadau trigolion Southport, er enghraifft, pan laddwyd tair merch ysgol gan ddyn â chyllell, yn enghraifft erchyll ac arswydus nad yw'n cyffwrdd â'r rhan helaeth o diriogaeth Cymru.

Er hynny, yn ystod y blynyddoedd diweddar gwelwyd digwyddiad brawychus o hiliaeth yng nghymuned tref Pen-y-groes, Arfon. Ond, er mor annymunol oedd hwnnw, mae'n eithriad o'i gymharu â'r hyn sy'n brofiad cyffredin yn ninasoedd Lloegr ac ar y Cyfandir.

Mae perygl i eglwysi Cymraeg eu hiaith yn ne-ddwyrain Cymru hefyd fod yn ynysoedd sy'n gymharol ddieithr i broblemau hiliol mewn gwirionedd. Clywsom am deuluoedd o blith y Cymry yn estyn croeso i ffoaduriaid o Wcráin, a chyn hynny i bobl o Syria a mannau tebyg. Bu rhai'n ffodus o gael perthynas iach ac adeiladol â'r rhai a ddaeth i'w haelwydydd, a gwir dweud bod eraill wedi cael profiadau anodd, ac i'r cysylltiad droi'n sur.

Rai blynyddoedd yn ôl, cofiaf am ymdrech yn enw Cytûn i geisio cyswllt a chymdeithas ag eglwysi pobl groenddu yng Nghaerdydd. Ond methu wnaeth y fenter am nad oedd yr eglwysi hyn yn awyddus i bontio â'r eglwysi o blith yr enwadau traddodiadol, beth bynnag yr enwad neu iaith yr addoliad. Ni chafwyd llwyddiant i fywyd Cyngor Eglwysi Caerdydd chwaith, am fod gormod ohonynt a bod gan yr eglwysi ffurf o gymuned gydenwadol ar lefel faestrefol. Roeddwn i o blaid addoliad torfol yn enw'r ddinas gyfan, cenhadaeth dorfol a digwyddiadau fel Cymanfa Ganu ddwyieithog i lenwi cae pêl-droed, ond methiant fu hynny.

Yn y gweithgor, clywn dystiolaeth cynulliadau o Pacistán, Iran a'r Almaen, yn dangos awydd i blethu â'r eglwysi lleol ac i ddathlu arglwyddiaeth Iesu arnom oll. Mae'r mudiad Efengylaidd yng Nghymru wedi gwahodd eglwysi/enwadau i nodi eu gweithgareddau cymdeithasol yn ddiweddar, a hyn ar ran Cytûn ac eraill, er mwyn cael blas ar yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

Byddwn yn barod i alw am hawliau'r Cymry ar sawl lefel, ond gallwn ymddangos yn oeraidd tuag at genhedloedd fel y Palestiniaid a thrigolion Wcráin pan fyddant yn dioddef yn drwm oherwydd iddynt fynnu hawliau hunaniaeth eu cenhedloedd eu hunain. Mae'n gwbl anhygoel fod Arlywydd America yn gyhoeddus iawn yn canu anthem America First, ac yna'n trafod cenedl y Palestiniaid fel pe bai'n symud praidd o ddefaid o un fferm i fferm arall, heb barchu eu cenedligrwydd. Prin mai taro bargen fusnes yw'r ffordd ddelfrydol o gefnogi hawliau cenedl fel Wcráin.

Thema fawr Sul Cyfiawnder Hiliol eleni oedd y pwyslais fod ein hefengyl yn efengyl i'r holl fyd, y got amryliw, a bod Duw yn Dduw i bob cenedl ac yn cael ei addoli ym mhob iaith. Mae ein hefengyl yn rhyngwladol, yn gynhwysol ac yn galw ar bobl Iesu i ddangos diddordeb yn holl aelodau'r eglwys fawr fyd-eang, beth bynnag eu hiaith a'u ffurf addoli. Nid dyddiad yw Sul Cyfiawnder Hiliol, ond darganfyddiad ein bod yn rhan o deulu Duw ar draws y byd a bod 'pob mab i ti yn frawd i mi, O Dduw'.

*Denzil I. John*

# Cytûn: eglwysi Ynghyd yng Nghymru

## Eisteddfod yr Urdd, Dur a Môr, Parc Margam, 26–31 Mai 2025: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru a'r Cyngor Ysgolion Sul **am 7 o'r gloch nos Fawrth, 4 Mawrth, yng Nghapel y Nant, Clydach,** i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd eleni.

Edrychwn ymlaen at ddechrau cynllunio ar gyfer yr ŵyl, a gynhelir ar 26–31 Mai ym mharc gwledig Margam. Yn ôl yr arfer, bydd gan yr enwadau stondin / uned yno, a bydd uned arall gan Gymorth Cristnogol. Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

## Y Sioe Fawr, Llanelwedd, 21–4 Gorffennaf 2025: Pabell yr Eglwysi


Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru **am 1 o'r gloch bnawn Mawrth, 4 Mawrth, yng Nghanolfan y CCRW ar faes y Sioe**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod y Sioe eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin.

Cynhelir y Sioe yn Llanelwedd ar gyrion Llanfair-ym-Muallt, rhwng 21 a 24 Gorffennaf, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin / uned yno i groesawu pobl o bob oed. Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

# Hybu cysylltiadau ag India

Cychwynnodd y Parch. Nan Powell-Davies a minnau i Ogledd-ddwyrain India ddechrau Rhagfyr er mwyn gwneud gwaith arbennig, sef meithrin cysylltiadau ac ymateb i wahoddiadau i fod yn rhan o wahanol gyfarfodydd a dathliadau yn yr eglwysi yno. Daeth Nan adref ar ôl pythefnos, ond fe arhosais i gyda'm teulu yno a dychwelyd adref ar 21 Rhagfyr. Mae yna lawer o straeon i'w rhannu, ond roeddwn i eisiau tynnu sylw at rai profiadau arbennig gawson ni yn ystod ein hamser yno.


Machlud dros Aizawl

**Ymweld â Synod Mizoram**

Fe gyrhaeddon ni Mizoram ar 3 Rhagfyr, ac yn ôl yr arfer, cawsom ein tywys yn syth i'r capel lle roedd y cyfarfod cyntaf wedi'r canfed (101) o Synod yr Eglwys Bresbyteraidd ym Mizoram. Roedd gan y cyfarfod hwn – y corff uchaf o ran gwneud penderfyniadau yn yr eglwys – 2,126 o gynrychiolwyr o wahanol Henaduriaethau y tro hwn, gan gynnwys rhai o daleithiau eraill India a thramor. Eleni, cynhaliwyd y Synod yn Eglwys Bresbyteraidd Mission Vengthlang, eglwys gymharol ifanc a blannwyd o'r eglwys gyntaf yn Aizawl, prifddinas talaith Mizoram.

Cyn y daith, roedd gennyf rywfaint o bryder ynghylch mynychu cyfarfod y Synod fel menyw Mizo a ordeiniwyd yng Nghymru, o ystyried nad yw merched yn cael eu hordeinio'n weinidogion na blaenoriaid ym Mizoram eto. Fodd bynnag, cefais fy nghalonogi gan y croeso a gawsom. Mynegodd llawer o bobl, hyd yn oed y rhai nad oeddem yn eu hadnabod, lawenydd wrth weld gweinidog benywaidd o Mizoram gan rannu eu gobaith am weld newid i ganiatáu ordeinio menywod yn y dyfodol.

Roedd cyfarfodydd busnes y Synod yn cael eu cynnal rhwng 9:30 y bore a 4 o'r gloch y pnawn am bedwar diwrnod. Gyda'r nos, denai'r gwasanaethau addoli cyhoeddus dyrfaoedd mawr. Roedd y gynulleidfa'n dechrau canu ryw hanner awr cyn i'r gwasanaeth ddechrau er mwyn aros i bawb gyrraedd a chael lle. Roedd gweld cymaint o bobl yn dod i'r gwasanaethau hwyrol yn ysbrydoliaeth, ac roedd gwrando ar ddau gôr rhagorol yn ystod pob gwasanaeth yn galonogol. Roedd y gwaith trefnu ar gyfer cynulliad mor fawr yn drawiadol. Yr Ofalaeth oedd yn gartref i'r Synod oedd yn gyfrifol am drefnu'r arlwyo, systemau sain, gofal meddygol, glanweithdra, tywysyddion, a llawer mwy. Roedd y lletygarwch a estynnwyd i ni yn eithriadol, a phawb yn teimlo mor gartrefol gyda'r croeso cynnes. Roedd cannoedd ar ddyletswydd bob dydd!

Fel ymwelwyr, trefnwyd i ni ymweld â gwahanol ganolfannau o fewn Synod Mizoram. Aethon ni i'r ysbyty, y Coleg Diwinyddol, swyddfeydd y Synod, y byngalo cenhadol cyntaf, sydd bellach yn gartref i'r Ysgrifennydd Gweithredol, ac i sawl man arall.



Ymweliad â'r Coleg Diwinyddol yn Aizawl

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Hybu cysylltiadau ag India*

*(parhad o dudalen 4)*

Bore Sul cafwyd gwasanaeth ordeinio 17 o weinidogion newydd a chomisiynu 21 o weinidogion ar brawf. Braf oedd gweld pob ymgeisydd yn adrodd o'r erthyglau athrawiaethol o Gyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd 1823 o flaen y gynulleidfa yn hyderus fesul un cyn cael eu hordeinio. Arweiniwyd gwasanaeth y cymun yn y prynhawn, a thros 3,000 o bobl yn bresennol, gan y Llywydd, gyda chymorth cyn-lywyddion a gweinidogion dethol eraill.

**Cyfarfod ffoaduriaid o Manipur**

Dydd Sadwrn, 7 Rhagfyr, cawsom gwrdd â ffoaduriaid o dalaith Manipur sydd wedi ffoi i Mizoram am loches ar ôl cael eu herlid yn eu talaith eu hunain. Fe gyrhaeddon ni yn ystod eu dathliad o garolau Nadolig yn y Ganolfan Ieuenctid, a oedd yn brofiad teimladwy iawn. Rhannodd nifer o bobl eu straeon â ni, ac roedd yn anodd dychmygu beth aethon nhw drwyddo a beth maen nhw'n dal i fynd drwyddo. Un ennyd rymus oedd y cyfnod o weddi dorfol (gweddïo gyda'i gilydd yn uchel ar yr un pryd); roedd eu gweld yn gweddïo mor daer ar dop eu lleisiau â dagrau'n llifo i lawr eu hwynebau yn gadael Nan a finnau yn ein dagrau hefyd.

Gwnaethom hefyd rai cyfweliadau a recordiadau i'w defnyddio ar gyfer 'Apêl Manipur' ein heglwysi gartref er mwyn rhoi darlun o'u sefyllfa a'r angen.

Yn ogystal â'r Synod a chwrdd â'r ffoaduriaid o Manipur, cyfarfu Nan a minnau â rhai o staff Coleg Diwinyddol Aizawl i drafod cyfleoedd cydweithio. Cawsom hefyd sgyrsiau ffrwythlon gydag arweinwyr ieuenctid canolog a chwrdd â rhai diwinyddion benywaidd Mizo.

Yna, ar 11 Rhagfyr, roedd yn bryd inni gychwyn am Shillong yn nhalaith Meghalia. O Aizawl, fe wnaethon ni hedfan i Guwahati a gyrru am bedair awr arall. Cawsom ein cyfarch â blodau yn y maes awyr, a chroesawyd ni yn gynnes gan aelodau pwyllgor Adain y Merched Synod Bresbyteraidd Khasi Jaintia (KJP).

**Dathlu Gwaith y Merched yn Shillong**

Y diwrnod wedyn, fe aethon ni i ddathliad 125ain Jiwbilî Gweinidogaeth y Merched yn Synod KJP. Am brofiad cofiadwy! Lle bynnag roedden ni, roedd pawb yn rhoi cwtsh, cusanau ac anrhegion i ni. Cawsom groeso cynnes gan bawb. Daeth llawer o bobl ataf a rhannu eu llawenydd pan glywsant am fy ordeinio, a dweud wrthyf eu bod wedi gweddïo drosof yn ystod fy ordeiniad, er nad oeddem yn adnabod ein gilydd. Cefais fy nghyffwrdd a'm calonogi'n fawr. Fe wnaethon nhw hefyd fynegi eu gobaith am fwy o gyfleoedd i weinidogion benywaidd yn y dyfodol.


Dathliadau 125 mlynedd o waith y Merched yn Shillong

Roeddwn yn falch o allu ymweld ag ysbyty Dr Gordon H. Roberts. Cawsom groeso cynnes gan yr ymddiriedolwr a swyddogion yr ysbyty, sy'n parhau i wasanaethu'r cymunedau yn Shillong ac o amgylch y ddinas. Yr hyn a gafodd argraff arnaf i oedd 'banc llaeth y fron' gan mai dyma'r tro cyntaf i mi glywed am brosiect o'r fath. Mae'r banc llaeth, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2021, bellach wedi casglu 12,960 litr o laeth, gan helpu llawer o famau na allent gynhyrchu digon o laeth i'w babanod.

Fe wnaethon ni gyfarfod â'r arweinwyr eglwysig benywaidd a'r diwinyddion benywaidd yn Shillong hefyd i archwilio ffyrdd o gysylltu, annog a dysgu oddi wrth ein gilydd.

Ar 14 Rhagfyr, fe gychwynnom ni gyda'r wawr, tua 5:30 o'r gloch, a gadael Shillong am Guwahati. Teithiodd Nan adref o Guwahati a dychwelais innau i Mizoram i dreulio ychydig ddyddiau gyda fy nheulu. Cawsom aduniadau teuluol o'm holl berthnasau ar y ddwy ochr. Roedd yn gyfle da i ailgysylltu â'r rhai nad oeddwn wedi'u gweld ers amser maith. Fe wnes i hefyd ymweld â rhai o aelodau oedrannus y teulu a theulu fy mherthnasau agos a fu farw ers i mi fod yno ddiwethaf.

Ddydd Sul, 15 Rhagfyr, gwahoddodd fy eglwys leol (eglwys Mission Veng yn Aizawl) fi i ddwyn cyfarchion yn ystod gwasanaeth yr hwyr. Fe wnaethon nhw hefyd drefnu amser i gael sgwrs dros baned ar ôl y gwasanaeth. Cyflwynodd yr eglwys arysgrif hyfryd i mi sy'n dweud:

> Cyflwynwyd i'r Parch Rebecca Lalbiaksangi, i gydnabod eich presenoldeb nodedig ar ôl cael eich ordeinio'n Weinidog gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bydded i Dduw eich bendithio.


Rwyf am ddiolch i'm gofalaeth i gyd am eu gweddïau, eu cefnogaeth, a'u gofal amdanom fel teulu. Rwy'n teimlo'n wylaidd iawn ac wedi fy mendithio o gael y profiad anhygoel hwn. Rwy'n gweddïo y bydd yr ymweliad hwn yn dwyn ffrwyth mawr ac yn cryfhau ein cysylltiad fel eglwys ac fel merched yma yng Nghymru â'n chwaer eglwysi yn India. Gobeithio y bydd y profiad hefyd, o'i rannu efo chi, yn ysgogiad i helpu a chefnogi ein brodyr a'n chwiorydd ym Manipur trwy 'Apêl Manipur' ein Cyfundeb.

Duw a'ch bendithia!

*Parch. Rebecca Lalbiaksangi*
*Trefaldwyn*

## *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 6: Tymor i bob peth**

**Y Pregethwr 3:1–9**

Y rhan fwyaf cyfarwydd inni o Lyfr y Pregethwr yw'r gerdd fach hon ar ddechrau'r drydedd bennod. Hawdd deall pam iddi gael y fath sylw dros y canrifoedd a pham y codwyd hi o'i chyd-destun i'w defnyddio'n annibynnol. Fe'i gwelir ar gardiau a phosteri; mae'n cael ei darllen mewn cyfarfodydd ac fe'i haddaswyd ar gyfer cerddoriaeth. Cyfansoddwyd cân Saesneg yn seiliedig arni, sef 'Turn! Turn! Turn!' gan Pete Seeger. Recordiodd y band roc Americanaidd The Byrds fersiwn ohoni a fu'n boblogaidd iawn yn ystod y 1960au gan wrthwynebwyr i bolisi America yn Fietnam. Pan arwyddwyd y cytundeb heddwch rhwng Israel a'r Palestiniaid ym 1993, gorffennodd Prif Weinidog Israel, Yitzhak Rabin, ei araith drwy ddweud fod yna 'Amser i garu, ac amser i gasáu, amser i ryfel, ac amser i heddwch'. Yna ychwanegodd: 'Mae'r amser i heddwch wedi dod'. Ac wrth gwrs recordiodd Mary Hopkins fersiwn Gymraeg hyfryd ohoni (gellir gwrando arni ar Spotify https://open.spotify.com/track/77YuFz3ApEkKDKYFOxO0AI?si=d541621f5fc34603):

> Y mae rhyw dymor, tro, tro, tro,
> Ac mae awr i bob pwrpas dan y nefoedd
> Rhyw awr i fod ac awr i fynd.

Mae'r testun Hebraeg gwreiddiol ar ffurf cerdd ac mae hyn, mi gredaf, yn gymorth wrth ystyried y cynnwys. Nid yw'r geiriau wedi eu hysgrifennu'n ffeithiol ac felly ni ddylid deall yr holl osodiadau'n llythrennol. Maent wedi eu hysgrifennu er mwyn i ni sylweddoli bod Duw yn goruwchlywodraethu dros bopeth. Mae'n dechrau drwy ein hatgoffa fod bywyd yn cynnwys popeth sy'n digwydd o'r crud i'r bedd. Fel hyn y mae Duw wedi trefnu bywyd dynol. Fe ddaw cyfnodau pryd y digwydd y pethau hyn ond ni wyddom pa bryd. (Gw. Iago 4:14)

**Yr amser iawn**

Mynegir testun y gerdd ar y dechrau, sef bod tymor i bob peth. Yna fe'i datblygir mewn 14 o gyplau cytbwys ond croes i'w gilydd sy'n enwi 28 profiad dynol. Rhoddir amser arbennig i bob digwyddiad, pob cyflwr, pob teimlad, pob gorchwyl. Tasg y doeth yw dirnad yr amser cywir er mwyn gweithredu'n gyfrifol. Wrth osod y cadarnhaol a'r negyddol ochr yn ochr, mae'r awdur yn mynegi realiti'r byd y mae'n byw ynddo, gan gydnabod nad yw'n hawdd dewis yr amser cywir i wneud rhywbeth. Ni allwn edrych ar yr holl gymalau yma ond ystyriwn ddau. Efallai yr hoffech chi fel criw drafod rhai o'r lleill.

**'Amser i gadw, ac amser i daflu ymaith' (3:6b)**

Mae rhai pethau, profiadau, gweithgareddau sy'n parhau am gyfnod yn unig. Weithiau daliwn afael arnynt yn rhy hir fel eu bod yn mynd yn feichus. Ond fe ddaw cyfnodau pryd y mae'n rhaid cael gwared o bethau a phrofiadau er mwyn symud ymlaen. Ac yna, yn ymarferol mewn bywyd mae bod yn ddarbodus yn beth doeth. Ond mae yma hefyd alwad i'r sawl sydd ar ben ei ddigon i fod yn hael drwy gofio am rai sydd heb ddim. Mae cyfoeth yn gallu ein caethiwo.

**'Amser i dewi, ac amser i siarad' (3:7b)**

Rhoddir cryn bwyslais yn Llên Ddoethineb ar yr amser addas i dewi ac i siarad. Yn ôl yr awduron, roedd grym yn perthyn i'r tafod, er drwg neu er da: 'Geiriau'r ynfyd yw ei ddinistr, ac y mae ei eiriau yn fagl iddo'i hun' (Diarhebion 18:7). Felly, rhaid bod yn ofalus wrth eu defnyddio. Gan fod i eiriau'r pŵer i glwyfo a chysuro, i gywiro ac i gamarwain, i greu ac i chwalu cyfeillgarwch, mae'r doethion yn rhoi sylw nid yn unig i gynnwys yr hyn a ddywedir ond hefyd i'r dull a'r amgylchiad: 'Fel afalau aur ar addurniadau o arian, felly y mae gair a leferir yn ei bryd' (Diarhebion 25:11).

Ond er mwyn sicrhau yr yngenir pob gair 'yn ei bryd' a'i fod felly'n addas i'r cyd-destun, rhaid dysgu ffrwyno'r lleferydd. Rhaid gwybod pryd i siarad, a phryd i dewi. Mewn rhai amgylchiadau, megis galar a phoen, mae distawrwydd yn amserol (Job 2:13).

Ceir yma'n ogystal adlais o ddysgeidiaeth y doethion yn y Testament Newydd. Yn ei gyngor i'w gyd-athrawon, mae Iago'n eu hatgoffa fod y tafod, er yn aelod bychan o'r corff, yn amhosibl i'w reoli (Iago 3:5–8). Wrth restru rheolau'r bywyd newydd yng Nghrist, mae Paul hefyd yn atgoffa'r Effesiaid o rym y gair: 'Nid oes yr un gair drwg i ddod allan o'ch genau, dim ond geiriau da, sydd er adeiladaeth yn ôl yr angen, ac felly'n dwyn bendith i'r sawl sy'n eu clywed' (Effesiaid 4:29).

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Ym mha ffyrdd y mae'r farddoniaeth enwog yn 3:1–8 yn her i'r Cristion?
2. Yn eich barn chwi, a oes y fath beth ag 'amser i ladd'?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Diwrnod dros Gymru ar Ŵyl Ddewi

'Diwrnod i gasglu'r Eglwys ynghyd i **ddathlu'r** hyn y mae Duw yn ei wneud yng Nghymru, i **ennyn ffydd** am y rhan y gallai pob un ohonom ei chwarae yng nghenhadaeth Duw ar draws y wlad, ac **i alw ar Dduw** gyda'n gilydd.'

Dyna fydd bwriad digwyddiad ar faes y Sioe Fawr sy'n cael ei drefnu gan y mudiad Cant i Gymru ddydd Sadwrn, 1 Mawrth 2025, rhwng 10:00yb a 6:30yh. Estynnir gwahoddiad cynnes i ni fod yn rhan o'r digwyddiad cenedlaethol hwn sy'n cael ei gefnogi gan dros 20 o rwydweithiau Cristnogol yng Nghymru.

Bydd y digwyddiad yn un dwyieithog, gyda chyfieithu ar y pryd pan fydd y cyfraniad yn Gymraeg. Bydd dau sesiwn yn Saesneg ac un yn Gymraeg, gyda'r Dathliad Gweddi i gloi'r dydd yn un dwyieithog dan arweiniad Owen Cottom ac Anna Hughes.

Braint fydd croesawu David Thomas o Asbury, Kentucky, atom, un oedd yn agos iawn at y tywalltiad o'r Ysbryd Glân yno ym mis Chwefror 2023. Ceir cyfraniadau eraill gan dîm Cant i Gymru ac arweinwyr eraill, fel Dr Rhiannon Lloyd, a rhai sy'n gwneud gwahaniaeth yng Nghymru a'r byd.

Bydd sesiynau ar wahân ar gyfer plant oed cynradd yn Gymraeg a Saesneg.

Pris tocyn: £15 i oedolion, â gostyngiad i rai 25 oed neu iau, neu os ydych yn archebu bloc o docynnau. Archebwch eich tocynnau'n fuan ar www.100.cymru, lle cewch fanylion llawn am y digwyddiad.

Bydd rhaglen y dydd yn cynnwys:

- 9:30 – drysau'n agor
  Addoliad dwyieithog
- Sesiynau gan arweinwyr o Gymru a thu hwnt
- Amser Gweddi
- Cymdeithasu
- Gwaith plant Cymraeg a Saesneg yn cydredeg (bore a phrynhawn)
- 18:30 – diwedd y dydd








**S4C** *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 16 Chwefror – Emynwyr Sir Benfro am 7:15yp**
Bydd Lowri Morgan yn ymweld â sir Benfro i ddysgu mwy am emynwyr mawr y fro yng nghwmni'r cerddor John S. Davies a'r awdur Hefin Wyn. Daw'r canu mawl o Gapel Bethel, Mynachlog-ddu. A chawn berfformiad arbennig gan y soprano o Landysilio, Jessica Robinson.

**BBC radio cymru** *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 16 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siân Thomas

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 16 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Owain Griffiths, Glynrhedynog



# O Gefn Gwlad

## Y mae amser i bopeth

Chwilio am ryw wybodaeth yn nofel ardderchog Daniel Owen, *Rhys Lewis*, yr oeddwn, a darllen am y tro cynta ers cantoedd y bennod lle mae Bob, brawd Rhys, yn dadlau'n ddiwinyddol efo'i fam, Mari Lewis, gwta bythefnos cyn iddo gael ei ladd yn nhanchwa Caeau Cochion.

Wrth chwilio drwy'r bennod, mi sylweddolais 'mod i wedi darllen y nofel hon pan oeddwn i'n llawer rhy ifanc wir; yn rhy ifanc i hanner ddeall y dadleuon rhwng Bob a'i fam. Fe ystyriwn y bennod yn un ddiflas ar y naw, a'r tebyg ydi imi sgimio dros ran helaeth ohoni, a rhannau eraill o'r nofel hefyd, a chanolbwyntio yn unig ar y darnau difyr, fel helynt troi bysedd y cloc.

Flynyddoedd yn ôl, pan oeddwn yn gweithio i Awdurdod Addysg Gwynedd, bu'n rhaid imi ymweld â rhieni merch yr oedden nhw'n anhapus iawn efo'r addysg a gâi yn ei hysgol leol. Cwynai'r fam yn arbennig fod y ferch yn naw oed cyn iddi ddysgu darllen yn iawn. Gofynnais innau beth oedd ei chŵyn gan fod y plentyn yn ddarllenwraig hyderus erbyn hynny, ac mi gofiaf yn dda ateb y fam: 'Mi gollodd y cyfle i fod yn chwech a saith oed cyflawn, ac i ddarllen y llyfrau addas i'w hoed bryd hynny,' meddai. 'Mi gollodd brofiadau gwerthfawr.' Mor wir, ac mor bwysig i bob plentyn gael yr holl amrywiaeth o brofiadau priodol i'w oedran er mwyn ei ddatblygu'n llawn.

Oes, y mae amser i bopeth, fel y dywed Llyfr y Pregethwr – amser addas ac amser anaddas. Rhy hwyr yn achos y ferch fach nawmlwydd oed, rhy gynnar yn fy hanes i gyda nofel Daniel Owen.

A synnwn i ddim na chafodd camamseru effaith arnaf fi, beth bynnag – fel hyn.

Roeddwn wedi fy ethol yn flaenor ym Moreia, Gwyddelwern, cyn i'r arferiad erchyll o ddiarddel pobol o'r capel ddod i ben. Eu diarddel, merched yn bennaf, am un peth yn unig: am fod yn feichiog cyn priodi. Ie, y ferch gan amla, nid y dyn. Ond stori arall yw honno.

Doeddwn i ddim yn euog o gytuno â'r arferiad annynol hwn, ond yr oeddwn i'n euog o beidio codi fy llais yn ddigon clir yn ei erbyn. Ydi, y mae peidio gwneud dim yn gallu bod yn bechod, onid yw.


A fyddai pethe wedi bod yn wahanol taswn i wedi darllen *Rhys Lewis* pan oeddwn yn hŷn yn hytrach na phan oeddwn yn rhy ifanc? Falle wir, ac y byddai darllen barn Bob am Abel Hughes, y blaenor hynod barchus hwnnw yn y nofel, wedi cael effaith arnaf, a pheri i mi weithredu'n wahanol. Dyma ddywedodd Bob amdano:

> Ond pa bryd y gwelsoch chi Abel Hughes – pob parch i Abel – yr wyf yn credu ei fod yn Gristion gloyw – ond pryd y gwelsoch chi ef yn codi ar ei draed i ofyn am arwydd i ddiarddel un am ei gybydd-dod, ei galongaledwch a'i wynebgaledwch? Pwy welsoch chwi yn cael ei dorri allan am yrru pobl ym mhennau ei gilydd? Am erlid ei well? Neu am fryntni ei dafod? Neb mi wn.

Mor wir. Mor wir am y cyfnod hwnnw ac am flynyddoedd wedyn yw geiriau'r nofelydd.

Fe wnaeth cofio am fam y plentyn a darllen rhannau o *Rhys Lewis* ddeubeth i mi. Fe wnaethant imi sylweddoli, neu fy atgoffa beth bynnag, mor bwysig yw fod plant yn cael y profiadau addas i'w hoedran; nid eu hamddifadu o brofiadau megis ysgol Sul, na rhoi iddyn nhw brofiadau rhy hen i'w hoedran chwaith, boed mewn byd neu eglwys. Gwers i'w dysgu gan lawer o rieni, gyda llaw, sy'n sicrhau ffonau symudol i'w plant bron cyn iddyn nhw ddysgu cerdded! Ac fe wnaeth chwilio trwy hanes Bob wneud i mi sylweddoli o'r newydd fawredd Daniel Owen fel nofelydd, ac y talai i ni, bawb ohonom dwi'n siŵr, ailddarllen gorau llenyddiaeth gan y gall y gorau hwnnw ein gwneud, gobeithio, yng ngeiriau'r emyn yn 'fwy doeth i fyw'. Y ddoethineb yr ydym oll ei gwir angen mewn bywyd.

*Elfyn Pritchard*




Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru